**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R ARGYMHELLION YN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID:**

**CRAFFU AR DRYDEDD GYLLIDEB ATODOL LLYWODRAETH CYMRU 2020-21**

---

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am newidiadau clir a systematig i'r broses gyllido mewn perthynas â digwyddiadau cyllido'r DU.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn unol ag argymhellion blaenorol y Pwyllgor Cyllid, rwyf yn cytuno bod angen parhau i dynnu sylw Llywodraeth y DU at bwysigrwydd rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder i'r Llywodraethau Datganoledig mewn perthynas ag amseriad digwyddiadau cyllidol y DU o gofio effaith hyn ar ein priod weithdrefnau cyllidebol gan gynnwys craffu seneddol. Yn fwyaf diweddar, dangoswyd yr effaith y mae'r ansicrwydd hwn yn ei chreu gan Gyllideb y DU a wnaeth addasiadau sylweddol i'n cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon ar ôl inni gyhoeddi, ac ar ôl i'r Senedd gymeradwyo, ein Cyllideb Derfynol 2021-22.

Mae'r dull ad hoc hwn o ymdrin ag arian cyhoeddus yn ymestyn i fethiant Llywodraeth y DU i gyflawni setliadau aml-flwyddyn a addawyd mewn adolygiadau diweddar o wariant, cyhoeddiadau ariannu mynych nad ydynt yn aml yn darparu arian newydd, gwrthdroi penderfyniadau gwariant a gyhoeddwyd yn flaenorol megis gyda'r Gronfa Lefelu a gwrthod darparu'r hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol yn y Fframwaith Cyllidol er gwaethaf yr amgylchiadau eithriadol.

Croesawaf ymdrechion parhaus y Pwyllgor i bwyso ar Lywodraeth y DU ar y materion hyn, fel y dangoswyd yn sesiwn dystiolaeth ddiweddar y Pwyllgor Cyllid gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth nesaf Cymru yn parhau i gyhoeddi adroddiadau Alldro i'r un lefel o fanylion â'r hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth gyfredol Cymru yn adroddiad 2019-20.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mater i Lywodraeth nesaf Cymru fyddai unrhyw adroddiad ar Alldro 2019-20. Er hynny, rwyf yn credu y byddai Llywodraeth newydd yn awyddus i ddarparu'r un lefel o dryloywder ag yr wyf wedi'i wneud, yn unol â'r protocol rhwng Llywodraeth bresennol Cymru a'r Senedd.

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau bod y cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol yn ystyried effaith wahaniaethol COVID-19 ar incwm awdurdodau lleol yn llawn.**

**Ymateb: Derbyn**

Darperir cyllid i gefnogi'r awdurdodau lleol gydag effaith ariannol COVID-19 ar gyfer costau ychwanegol a cholli incwm. Rheolir cyllid ar sail hawliadau drwy gronfa galedi llywodraeth leol felly mae'n adlewyrchu'r amrywiaeth o ffrydiau incwm yr awdurdodau lleol. Mae hawliadau'n cael eu hadolygu yn erbyn cyfres o egwyddorion gan banel sydd â'r arbenigedd perthnasol gan gynnwys aelodau allanol sydd wedi bod yn swyddogion adran 151 awdurdod lleol o'r blaen. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r awdurdodau lleol gyda £190m o incwm a gollwyd yn ystod 2020-21.

**Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau bod y cyllid ychwanegol a ddarperir yn y Drydedd Gyllideb Atodol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol a chronfa ymateb y Trydydd Sector yn adlewyrchu'n llawn yr effaith ar wahanol ardaloedd a sefydliadau yn y Trydydd Sector.**

**Ymateb: Derbyn**

Y Gronfa Cymorth Dewisol

Gwasanaeth wedi'i gaffael a ddarperir ar lefel genedlaethol gyda meini prawf yn cael eu cymhwyso'n gyson ledled Cymru yw'r Gronfa Cymorth Dewisol. Pennir dyfarniadau gan yr angen a gyflwynir mewn cais. Gwyddom fod gan rai ardaloedd yng Nghymru lefelau uwch o dlodi nag eraill, ac mae ein data'n dangos bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dyfarniadau a wneir, gyda'r nifer uchaf yn cael eu gwneud yn gyson â maint y boblogaeth, sef o fewn awdurdodau lleol Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Chasnewydd.

Mae ein rhwydwaith partneriaid sy'n dibynnu ar sefydliadau'r Trydydd Sector yn gweithredu ledled Cymru ac yn parhau i fod yn allweddol i'r gwaith o sicrhau bod y Gronfa Cymorth Dewisol yn cyrraedd y bobl fwyaf agored i niwed y mae arnynt angen y cymorth hwn.

Mae'r £14.9m yn ychwanegol a fuddsoddwyd yn y Gronfa yn ystod 2020-21 wedi galluogi Llywodraeth Cymru i gefnogi'r cynnydd mawr mewn ceisiadau oherwydd COVID-19 a hefyd i lacio'r rheolau sy'n ymwneud â nifer ac amlder dyfarniadau'r Taliad Cymorth mewn Argyfwng oherwydd COVID-19.

Rhwng y cyfnodau 18 Mawrth 2020 pan ddechreuodd cofnodion COVID-19, hyd at 18 Mawrth 2021, mae cyfanswm o 215,475 o daliadau arian parod mewn argyfwng wedi'u gwneud drwy'r Gronfa, sef cyfanswm o bron i £14.2m, ac mae 177,161 ohono yn dyfynnu COVID-19 fel achos, sy'n fwy nag £11.76m.

Ar 2 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £10.5m yn ychwanegol, gan gynyddu cyllideb y Gronfa Cymorth Dewisol o £12.7m i £23.3m yn 2021-22. Bydd hyn yn parhau â'r cymorth digynsail yr ydym wedi'i ddarparu i'r rhai y mae arnynt ei angen fwyaf.

Rydym yn awyddus i fynd i'r afael â materion ehangach pobl ar yr adeg y maent yn ymgeisio i'r Gronfa ac felly byddwn hefyd yn cynnwys nifer o gynghorwyr arbenigol i weithio gyda chleientiaid, a gwella'r gwasanaeth. Bydd hyn yn allweddol wrth nodi a chefnogi pobl a allai fod yn gymwys i gael mwy o fudd-daliadau nag y maent yn eu hawlio ar hyn o bryd pan fyddant yn gwneud cais i'r Gronfa.

Cronfa sy'n cael ei harwain gan y galw yw'r Gronfa Cymorth Dewisol ac felly byddwn yn parhau i'w monitro a'i hadolygu'n ofalus yn ôl yr angen.

Y Trydydd Sector

Roeddem yn cydnabod bod y Trydydd Sector yng Nghymru wedi chwarae rhan hanfodol yn yr ymateb i bandemig COVID-19 ac y bydd ganddo rôl yr un mor werthfawr yn ein hadferiad teg, cyfiawn a gwyrdd.

Defnyddiwyd y swm o £4.7m o gyllid ychwanegol ar gyfer Cronfa Ymateb y Trydydd Sector fel a ganlyn:

- Darparodd Cronfa Gydnerthedd y Trydydd Sector gymorth i fudiadau gwirfoddol oroesi'r argyfwng ac addasu a gwella eu sefydliadau i fod yn fwy parod ar gyfer ergydion yn y dyfodol.
- Darparodd Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol grantiau i alluogi sefydliadau'r sector gwirfoddol i gynnal gweithgarwch a arweinir gan wirfoddolwyr i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau drwy'r argyfwng parhaus.
- Rhoddodd y Gronfa Galluogi Seilwaith gymorth ychwanegol i Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) i'n sefydliadau seilwaith yng Nghymru (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol). Roedd y cymorth hwn yn eu galluogi i fanteisio i'r eithaf ar eu gallu i ymateb i'r argyfwng ac i gefnogi'r ymateb gwirfoddoli a sefydliadau eraill yn y sector gwirfoddol sy'n ceisio cymorth a chyngor.

Datblygwyd y dull hwn mewn partneriaeth â chyllidwyr strategol eraill (e.e. Y Loteri Genedlaethol, Sefydliad Lloyds, Fforwm Cyllidwyr Cymru) i ymateb i anghenion cymunedau, yn enwedig y bobl fwyaf agored i niwed a'r bobl hynny y mae COVID-19 wedi effeithio'n anghymesur arnynt, a sefydliadau'r trydydd sector.

Yn ogystal, mae ein seilwaith trydydd sector wedi bod yn allweddol wrth hwyluso'r ymateb a arweinir gan wirfoddolwyr. Roedd meddu ar y seilwaith yn golygu bod yr ymateb yn cael ei gyflwyno'n gyflym a'i fod wedi'i gydgysylltu'n dda. Mae aelodau TSSW wedi gweithio gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac eraill i helpu i sicrhau bod y rhai sy'n agored i niwed yn cael cymorth. Roeddent hefyd yn cefnogi grwpiau'r sector gwirfoddol gan gynnwys y llu o grwpiau newydd sydd wedi cael eu creu ledled Cymru mewn ymateb i COVID-19. Rhoddodd aelodau TSSW gyngor ar lywodraethiant ac fe wnaethant gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i sicrhau bod pobl a gwirfoddolwyr sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu

Dyna pam rydym yn falch o ddweud ein bod hefyd wedi sicrhau cynnydd cymedrol yn y cyllid craidd ar gyfer TSSW yn 2021-22. Mae'r cynnydd hwn o 10% yn costio £450,000 a hwn yw'r  cynnydd cyntaf mewn cyllid mewn termau real ar gyfer y sector ers dros ddegawd. Rydym yn gobeithio y bydd y cynnydd hwn yn cael ei gynnal yn nhymor nesaf y Senedd.

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyllid ar gyfer seilwaith buddsoddi ym mhorthladdoedd Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Rwyf bellach wedi cael ymateb gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i'm sylwadau ynglŷn â'r cyllid ar gyfer y seilwaith a'r gweithrediadau parhaus y mae eu hangen ar ffin Cymru yn sgil ein hymadawiad â'r UE. Mae Trysorlys EM wedi cytuno mewn egwyddor i ariannu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r safleoedd mewndirol yn 21-22 drwy hawliad wrth gefn. Mae'r Trysorlys hefyd wedi cydnabod ein pryderon am y costau gweithredol parhaus sylweddol ar gyfer y cyfleusterau hyn ac mae wedi cadarnhau yr eir i'r afael â hyn yn yr adolygiad arfaethedig o wariant. Dylai Llywodraeth y DU dalu costau ychwanegol y swyddogaeth sylweddol a hollol newydd hon sy'n deillio'n uniongyrchol o ymadael â'r UE ac sy'n rhan bwysig o seilwaith bioddiogelwch Prydain Fawr a fydd yn sail i elfen bwysig ar gytundebau masnach yn y dyfodol.

---

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am y diffyg manylion am Gronfa Ffyniant a Rennir y DU ac mae'n annog Llywodraeth Cymru i barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau setliad ariannu teg i Gymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i godi ei phryderon gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF). Yn benodol, na ddylai Cymru fod ceiniog ar ei cholled, y dylid parchu datganoli, ac y dylai arian i ddisodli cronfeydd yr UE gael ei ddyrannu'n llawn drwy'r Llywodraethau Datganoledig a strwythurau llwyddiannus sy'n bodoli eisoes. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddais ddatganiad ar y cyd â Gweinidogion Cyllid Datganoledig eraill ar 24 Mawrth yn galw ar Lywodraeth y DU i ymgysylltu'n ystyrlon ac i barchu'r trefniadau datganoledig. Er bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi honni i'r Pwyllgor ei fod yn agored i'r posibilrwydd o ymgysylltu gwirioneddol, mae Gweinidogion a swyddogion o'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol sy'n arwain ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi gwrthod cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau sylweddol.

---